# Canllaw Ar Siarad Mewn Cyfarfod Amlsafle o'r Pwyllgor Cynllunio



# CANLLAW AR SIARAD MEWN CYFARFOD AMLSAFLE O'R PWYLLGOR CYNLLUNIO

**CYFLWYNIAD**

O fis Mai 2022, ac yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio bellach yn cael eu cynnal ar ffurf amlsafle, sy'n golygu y gall cyfranogwyr a sylwedyddion fynychu'r cyfarfod naill ai wyneb yn wyneb neu ar-lein.

Mae'r daflen hon yn egluro sut i gymryd rhan mewn cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ac yn ateb rhai o'r cwestiynau a allai fod gennych chi ynglŷn â'r hyn i'w ddisgwyl yn y cyfarfod. Mae'n seiliedig ar reolau syml sy'n gwneud y system mor deg a hawdd ei gweithredu â phosibl, felly darllenwch y daflen gyfan.

## 1. Sut mae'r Pwyllgor Cynllunio yn gweithio?

Nid yw'r Pwyllgor Cynllunio yn penderfynu ar bob cais. Caiff y rhan fwyaf o geisiadau eu penderfynu gan Swyddogion y Cyngor dan gynllun dirprwyo'r Cyngor ac nid ydyn nhw'n destun y gweithdrefnau y manylir arnyn nhw yn y daflen hon. Fodd bynnag, os oes gan Aelod unrhyw bryderon am gais yna gall ofyn am gyflwyno'r cais hwnnw gerbron aelodau'r Pwyllgor Cynllunio er mwyn iddyn nhw benderfynu ar y cais. Dim ond y ceisiadau sy'n cael eu penderfynu gan y Pwyllgor y gallwch chi siarad yn eu cylch.

Ffoniwch y Swyddog Achos sy'n delio â'r cais i weld a fydd y cais sydd o ddiddordeb i chi yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio ac i gael gwybod dyddiad y cyfarfod. Bydd enw'r Swyddog Achos a'i fanylion cyswllt i'w gweld ar yr ohebiaeth ynghylch y cais.

Mae'r Pwyllgor Cynllunio yn cynnwys Cadeirydd, Is-gadeirydd a 14 o Gynghorwyr eraill. Mae aelodau'r Pwyllgor yn derbyn adroddiadau ysgrifenedig ar y ceisiadau cynllunio sydd i'w hystyried. Bydd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion, fel arfer i naill ai roi caniatâd yn amodol ar amodau neu wrthod am resymau a nodir yn yr adroddiad. Fodd bynnag, Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol, a hynny ar ôl

ystyried adroddiad y swyddog ac ystyried yr holl ystyriaethau cynllunio arwyddocaol.

## 2. Ble caiff y cyfarfodydd eu cynnal a phwy all gymryd rhan?

Caiff y cyfarfodydd eu cynnal yn Siambr y Cyngor yn Nhŷ Penallta, Tredomen ac ar-lein. Gan fod y cyfarfodydd ar agor i'r cyhoedd, gallai'r wasg a'r cyhoedd ddod i wrando ar y drafodaeth, oni bai bod y trafodaethau'n cynnwys eitemau cyfrinachol neu rhai sydd wedi'u heithrio. Mae'r Siambr yn hollol hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn ac mae'n cynnwys cyfleuster dolen sain i bobl â nam ar eu clyw.

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu ffrydio'n fyw hefyd, felly gall unrhyw aelod o'r cyhoedd neu'r wasg sy'n dymuno gwylio'r trafodaethau wneud hynny ar-lein drwy'r ddolen ganlynol: https://civico.net/caerphilly

Ym mhob cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn atgoffa'r holl fynychwyr y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw a bydd recordiad ar gael ar wefan y Cyngor, oni bai am drafodaethau sy'n cynnwys eitemau cyfrinachol neu sydd wedi'u heithrio.

Os byddwch chi'n dod i'r cyfarfod i weld y trafodaethau felly, neu os ydych chi'n cymryd rhan yn y cyfarfod fel siaradwr, mae'n bwysig nodi y bydd eich delwedd/sain ar gael yn gyhoeddus i bawb yn ystod y gweddarllediad a thrwy'r recordiad sy'n cael ei archifo ar wefan y Cyngor.

## 3. A oes angen i mi ddod i'r cyfarfod i gyflwyno unrhyw sylwadau i'r Pwyllgor?

**NAC OES** – bydd eich sylwadau ysgrifenedig wedi'u crynhoi yn adroddiad y Swyddog (cyhyd â'ch bod chi wedi'u cyflwyno i'r Adran Gynllunio o fewn y cyfnod ymgynghori) neu byddan nhw'n cael eu hamlinellu ar lafar i'w hystyried gan y Pwyllgor.

## 4. Sut mae gwybod pryd fydd cais yn cael ei ystyried?

Mae'r Pwyllgor Cynllunio'n cwrdd bob mis am 5.00pm yn Siambr y Cyngor. Caiff agenda'r Pwyllgor ei chyhoeddi erbyn y dydd Mercher yr wythnos cyn

cyfarfod y Pwyllgor, a gellir cael gafael arni ar ein gwefan Pori cyfarfodydd - Y Pwyllgor Cynllunio (caerffili.gov.uk) neu drwy ffonio'r Gwasanaethau Pwyllgorau ar 01443 864245.

Gallwch chi weld dyddiadau ac amseroedd y cyfarfodydd diweddaraf ynghyd â rhestr o Aelodau'r Pwyllgor ar wefan y Cyngor drwy ddilyn y ddolen hon: Pori cyfarfodydd - Y Pwyllgor Cynllunio (caerffili.gov.uk)

Mae croeso i chi siarad yn Gymraeg yn y cyfarfod. Bydd cyfieithydd ar y pryd yn cael ei ddarparu ar gais, ond bydd angen rhybudd o 3 diwrnod gwaith o leiaf os ydych chi'n dymuno gwneud hynny.

## 5. Sut mae trefnu siarad mewn cyfarfod amlsafle?

Rhaid i ymgeiswyr a gwrthwynebwyr sy'n dymuno siarad roi gwybod i'r Gwasanaethau Pwyllgorau (Ffôn: 01443 864245 neu e-bostio committeeservices@caerphilly.gov.uk) erbyn 5.00pm y dydd Llun cyn cyfarfod y Pwyllgor fydd yn penderfynu ar y cais.

Mae hyn yn rhoi cyfle i'r parti arall siarad ac yn rhoi gwybod i'r Cadeirydd faint o aelodau'r cyhoedd sydd am siarad.  Bydd angen i chi ddarparu cyfeiriad a chyfeirnod y cais rydych chi'n dymuno siarad yn ei gylch, ynghyd â'ch manylion cyswllt.

Os hoffech chi ymuno â'r cyfarfod o bell, rhowch eich cyfeiriad e-bost fel y gallwn anfon dolen atoch chi i ymuno â'r cyfarfod ar-lein.  Os byddwch chi'n ymuno o bell, gofynnir i chi hefyd anfon fersiwn ysgrifenedig o'ch datganiad atom ni ymlaen llaw, er mwyn sicrhau y gall y Cadeirydd gyflwyno eich sylwadau neu bryderon i'r Pwyllgor os cewch chi broblemau gyda'ch cysylltiad.

Os hoffech chi gyflwyno eich sylwadau'n Gymraeg neu mewn iaith arall, neu os oes angen dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain arnoch chi, cysylltwch â'r Gwasanaethau Pwyllgorau ymlaen llaw er mwyn iddyn nhw allu trefnu i ddiwallu eich anghenion.  Gwneir pob ymdrech i ddiwallu eich anghenion, ond rhowch wybod i ni gyn gynted â phosibl neu efallai na fydd digon o amser i wneud y trefniadau angenrheidiol.

Os, am unrhyw reswm, na all ymgeisydd neu wrthwynebydd ddod i'r cyfarfod fydd yn ystyried y cais, gall benodi cynrychiolydd i siarad ar ei ran neu gyflwyno ei sylwadau'n ysgrifenedig.

Os oes sawl gwrthwynebydd neu gefnogwr yn dymuno siarad ynglŷn â chais, dylid enwebu llefarydd.

I'ch helpu chi i benderfynu pwy ddylai siarad, gofynnir i chi a fydd modd i ni drosglwyddo eich enw a'ch rhif ffôn i wrthwynebwyr (neu gefnogwyr) eraill er mwyn i chi gytuno ar lefarydd ymhlith eich gilydd. Mewn amgylchiadau eithriadol, gallai'r Cadeirydd ganiatáu i fwy nag un person siarad.

Hyd yn oed os ydych chi wedi rhoi gwybod eich bod chi'n dymuno siarad yn y cyfarfod, gallwch chi newid eich meddwl a phenderfynu peidio â gwneud hynny, ond gofynnir i chi gadarnhau hyn gyda ni cyn gynted â phosibl er mwyn ein helpu ni i osgoi unrhyw oedi diangen.

## 6. Beth sy'n digwydd yn y cyfarfod?

**<u>Wrth gyrraedd</u>**

**Os ydych chi'n dod i'r cyfarfod yn bersonol ac wedi gofyn am gael siarad,** cyrhaeddwch Dderbynfa Tŷ Penallta, Tredomen erbyn 4.30pm ar ddiwrnod cyfarfod y Pwyllgor. Dylech chi roi gwybod i Swyddog y Gwasanaethau Pwyllgorau eich bod chi wedi cyrraedd, a bydd yn eich tywys i'ch sedd yn y Siambr. Noder y gofynnir i'r holl fynychwyr eraill (nad ydyn nhw am siarad) fynd i eistedd yn yr oriel gyhoeddus yng nghefn Siambr y Cyngor. Cofiwch y gallai fod yn anodd caniatáu mynediad i'r rheiny sy'n cyrraedd yn hwyr, a bydd unrhyw berson nad yw'n bresennol pan fydd cais yn cael ei ystyried yn colli'r cyfle i gyflwyno ei sylwadau i'r Pwyllgor.

**Os ydych chi'n ymuno â'r cyfarfod o bell ac wedi gofyn am gael siarad,** bydd y Gwasanaethau Pwyllgorau yn anfon gwahoddiad atoch chi mewn e-bost a fydd yn cynnwys dolen at y cyfarfod rhithwir. Dim ond ar ddiwrnod y cyfarfod y byddwch chi'n gallu defnyddio'r ddolen hon. Bydd yr e-bost yn cynnwys yr holl gyfarwyddiadau fydd eu hangen arnoch chi i ymuno â'r cyfarfod drwy ein llwyfan ar-lein a bydd Clerc y Pwyllgor yn rhoi'r holl gymorth sydd ei angen arnoch chi i gymryd rhan o bell.

Bydd y ddolen yn gweithio tua 15 munud cyn dechrau'r cyfarfod. Gallwch chi ymuno bryd hynny.

Tra bod y cyfarfod yn mynd rhagddo, bydd angen i chi 'ddistewi' eich dyfais a diffodd eich camera nes bod y Cadeirydd yn galw arnoch chi i siarad. Bydd modd i chi weld a/neu wrando ar y drafodaeth ac os byddwch chi'n ymuno â'r cyfarfod drwy luniadur/cyfrifiadur neu ddyfais glyfar bydd modd i chi weld cyflwyniad y Swyddog hefyd.

**<u>Trefniadau'r cyfarfod</u>**

Bydd y Cadeirydd yn cyflwyno pob cais cynllunio ac yn gwahodd y Swyddog Achos Cynllunio i gyflwyno manylion y cais. Yn dilyn hyn, bydd y Cadeirydd yn gwahodd y siaradwr i annerch y Pwyllgor.

Bydd aelodau'r cyhoedd yn siarad yn y drefn hon:

- Gwrthwynebydd (neu ei gynrychiolydd)
- Ymgeisydd (neu ei asiant)

Rhaid i'r ddau siaradwr gyflwyno eu sylwadau yn yr un cyfarfod o'r Pwyllgor. Caiff pob unigolyn sy'n dymuno siarad ynghylch cais hyd at bum munud yr un i wneud hynny. Bydd y Cadeirydd yn sicrhau y glynir wrth yr uchafswm amser hwn yn llym.

Ni chaiff siaradwyr holi cwestiynau i'r Cynghorwyr na'r Swyddogion. Os ydych chi'n ymuno o bell, mae'r rheol hon hefyd yn berthnasol i'r swyddogaeth "Sgwrs", ac ni ddylai siaradwyr cyhoeddus wneud unrhyw sylwadau am gais drwy'r cyfleuster Sgwrs.

Ni chaiff Aelodau'r Pwyllgor holi cwestiynau i'r siaradwyr yn uniongyrchol, ond gallan nhw geisio eglurhad drwy'r Cadeirydd gydag atebion yn cael eu rhoi trwy'r Swyddogion.

Yna bydd Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio yn gallu trafod y mater a dod i benderfyniad. Os, yn dilyn trafod cais, caiff y penderfyniad ei ohirio i gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio yn y dyfodol, yna ni fydd unrhyw gyfle pellach i annerch y Pwyllgor.

Ar ôl gwrando ar y drafodaeth ynghylch eich cais penodol efallai y byddwch chi'n dymuno gadael y Siambr. Os byddwch chi'n penderfynu gadael, gwnewch hynny mor dawel â phosibl. Os ydych chi'n dymuno aros, byddwch yn dawel am gyfnod y cyfarfod.

Os ydych chi'n cymryd rhan o bell ac wedi gwrando ar y drafodaeth a phenderfyniad eich cais, bydd trefnydd y cyfarfod yn cau'r ddolen ac fe gewch chi eich datgysylltu o'r cyfarfod. Noder na fyddwch chi'n gallu dychwelyd i'r cyfarfod drwy'r ddolen hon, ond os hoffech chi wylio gweddill y cyfarfod, gallwch chi wneud hynny drwy ddilyn y ddolen ffrydio byw: Cyngor Caerffili - Civico

Noder y gall y Cadeirydd benderfynu tynnu unigolion o'r cyfarfod os oes angen.

Bydd hysbysiad o benderfyniadau'r cyfarfod yn cael ei gyflwyno ar wefan y Cyngor o fewn 7 diwrnod gwaith, a fydd yn rhoi manylion y rhai sy'n bresennol, unrhyw ymddiheuriadau, unrhyw ddatganiadau o fuddiant, y penderfyniad a'r bleidlais a gafwyd. Cymerir cofnodion o'r cyfarfod hefyd a bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi yn y pecyn agenda ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynllunio.

Noder bod cyfreithiau athrod yn llym iawn. Os dywedwch chi rywbeth difenwol yn gyhoeddus neu pe baech chi'n rhoi rhywbeth yng nghyfleuster 'sgwrs' y cyfarfod ynglŷn â pherson nad yw'n wir, gallech chi fod yn destun camau cyfreithiol. Yn yr un modd, dylech chi sicrhau nad yw eich sylwadau'n wahaniaethol. Dylech chi fod yn ymwybodol y gallai nodyn o'ch sylwadau llafar gael eu cymryd a byddan nhw ar gael yn gyhoeddus o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

## 7. Beth sy'n digwydd os gelwir am ymweliad â safle?

Gall Cynghorwyr ofyn am wneud ymweliad â safle cyn ystyried y cais yn unol â Chyfansoddiad Cyngor Caerffili.

Bydd pob ymweliad safle yn cael ei gynnal ar y dydd Llun cyn y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer y ceisiadau hynny sy'n cael eu hadrodd i'r cyfarfod hwnnw.

Diben yr ymweliad safle yw edrych ar safle'r cais gan alluogi'r Aelodau sy'n bresennol i gwestiynu/ceisio cadarnhad am bwyntiau'r cais cynllunio gyda'r Swyddogion. Ni fydd sylw(adau) gan drydydd partïon yn cael eu clywed.

Os oes ymweliad safle wedi'i drefnu, dylai gwrthwynebwyr ac ymgeiswyr wirio gyda'r Gwasanaethau Pwyllgorau drwy ffonio 01443 864245 neu e-bostio committeeservices@caerffili.gov.uk

8. **A allaf ddefnyddio cyflwyniadau fel PowerPoint, cyflwyniadau fideo neu ddosbarthu dogfennau ategol?**

**NA CHEWCH** – ni chaiff siaradwyr, p’un a’u bod yn ymuno o bell neu’n wyneb yn wyneb, wneud unrhyw gyflwyniadau gweledol, sleidiau arddangos na chyflwyniadau fideo yn y cyfarfod.

Os bydd ymgeisydd neu wrthwynebydd am i’r Pwyllgor ystyried unrhyw dystiolaeth, gohebiaeth neu ddogfennaeth ategol arall sydd wedi dod ar gael ar ôl cyflwyno adroddiad y Swyddog, ac nid yw wedi’i chynnwys yn yr adroddiad hwnnw, rhaid rhoi copïau i Reolwr y Gwasanaethau Cynllunio a’r Gwasanaethau Pwyllgorau o leiaf 48 awr cyn cyfarfod y Pwyllgor fydd yn ystyried y cais. Noder y bydd y wybodaeth hon yn cael rhannu gyda’r Swyddogion priodol hefyd.

9. **Beth ddylwn i ei ddweud yn y cyfarfod?**

Mae’n well paratoi’r hyn rydych chi am ei ddweud ymlaen llaw ac amseru eich hun i wneud yn siŵr y gallwch chi ddweud y cyfan o fewn 5 munud. Rydych chi’n debygol o gael yr effaith fwyaf os ydych chi:

- Yn gryno ac yn berthnasol,
- Yn cyfyngu eich barn i’r cais cynllunio,
- Yn canolbwyntio ar y materion cynllunio perthnasol.

10. **Beth yw’r materion perthnasol wrth ystyried cynigion?**

Bydd y materion perthnasol yn amrywio yn ôl natur y cynnig, ond bydd enghreifftiau’n cynnwys y canlynol:

- Y Cynllun Datblygu,
- Canllawiau Llywodraeth Cymru,
- Materion cynaliadwyedd,
- Penderfyniadau cynllunio blaenorol,
- Sŵn, aflonyddwch, aroglau,
- Hyfrydwch preswyl,
- Y traffig fydd yn cael ei greu, diogelwch y ffordd fawr a pharcio,
- Dyluniad, golwg, deunyddiau, dwysedd a chynllun,
- Effaith ar goed, ecoleg, adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth,

- Man agored cyhoeddus.

## 11. Pa faterion sydd fel arfer yn amherthnasol wrth ystyried cynigion?

Bydd y rhain yn amrywio fesul achos, ond mae’r canlynol fel arfer yn amherthnasol:

- Y rheiny sy’n cael eu rheoli gan ddeddfwriaeth arall (e.e. Rheoliadau Adeiladu),
- Anghydfodau ynghylch ffiniau neu berchenogaeth tir preifat,
- Moesau neu gymhelliad y datblygwr,
- Datblygiad pellach posibl,
- Colli golygfa dros dir pobl eraill,
- Effaith ar werth eiddo,
- Cyfamodau,
- Llwybrau tramwy preifat,
- Ymddygiad posibl meddianwyr yn y dyfodol.

Er y gallai sylwadau o’r fath fod o bwys i chi, nid ydyn nhw o reidrwydd yn faterion cynllunio ac ychydig o ddylanwad sydd ganddyn nhw pan fydd y Pwyllgor yn penderfynu ar y cais.

## 12.Rôl y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol

Caiff Cynghorwyr eu hethol i’ch cynrychioli ar y Cyngor Bwrdeistref Sirol. Efallai y byddwch chi’n dymuno cysylltu â’ch Cynghorydd i drafod y cais cynllunio. Fodd bynnag, os yw’n aelod o’r Pwyllgor Cynllunio, ni fydd yn gallu ymrwymo ei hun i benderfyniad cyn clywed yr holl dystiolaeth a’r drafodaeth yng nghyfarfod perthnasol o’r Pwyllgor. Os hoffech chi i Gynghorydd gynrychioli eich sylwadau yn y Pwyllgor Cynllunio, yna fe’ch cynghorir i gysylltu â Chynghorydd nad yw’n rhan o’r Pwyllgor.

Rhaid i Gynghorwyr sydd am annerch y Pwyllgor Cynllunio roi gwybod i’r Gwasanaethau Pwyllgorau erbyn 5.00pm y dydd Mawrth cyn y cyfarfod fydd yn pennu eich cais, felly siaradwch ag Aelodau eich ward lleol cyn gynted â phosibl os ydych chi am iddyn nhw gynrychioli eich sylwadau yn y cyfarfod. Dim ond hyd at 5 munud caiff Cynghorwyr i siarad ar ôl y gwrthwynebydd a/neu’r ymgeisydd.

**13. Pwy ydw i'n ei holi os oes gennyf i unrhyw gwestiynau pellach?**

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau nad yw'r daflen hon wedi'u hateb, neu unrhyw sylwadau eraill, cysylltwch â'r Gwasanaethau Pwyllgorau ar **01443 864245** neu e-bostio committeeservices@caerphilly.gov.uk.

Mae'r canllaw hwn ar gael yn Saesneg ac mewn ieithoedd neu fformatau eraill ar gais.

This guide is available in English, other languages or formats on request.